
Prifysgolion Cymru
Universities Wales

# Adroddiad Blynyddol Prifysgolion Cymru 2023/24




Adroddiad Blynyddol
Prifysgolion Cymru
2023/24

# Ynglŷn â Phrifysgolion Cymru

Mae Prifysgolion Cymru yn gorff aelodaeth sy'n cynrychioli buddiannau'r naw prifysgol sydd yng Nghymru.

Rydym yn datblygu polisi addysg uwch, yn ymwneud â gwleidyddion a rhanddeiliaid, ac yn ymgyrchu ar faterion ble mae gan ein haelodau fuddiannau a rennir.

Rydym hefyd yn cynorthwyo ein haelodau i gydweithio; mae ein gwaith yn cwmpasu Cymru Fyd-eang a Rhwydwaith Arloesedd Cymru - y naill a'r llall yn rhan o Brifysgolion Cymru.

Ein cennad yw cynnig cymorth i system addysg prifysgol sy'n trawsnewid bywydau trwy'r gwaith y mae prifysgolion yng Nghymru'n ei wneud gyda phobl a lleoedd Cymru a'r byd ehangach.

Mae Prifysgolion Cymru yn gweithio'n annibynnol fel rhan o sefydliad Prifysgolion y DU.

# Rhagarweiniad



Bu'r flwyddyn ddiwethaf un o'r cyfnodau mwyaf ansicr a heriol i brifysgolion ers cyn cof. Er bod y pandemig yn 2020 wedi diwygio'r ffordd y mae ein prifysgolion yn gweithredu, mae'r heriau sydd wedi ein hwynebu yn 2023-24 yn fwy sylfaenol. Rydym wedi gweld sefyllfa anwadal ddigynsail o ran ein recriwtio rhyngwladol, costau cynyddol sydd wedi'u hysgogi gan y lefelau uchaf o chwyddiant ers degawdau, ac ansicrwydd gwleidyddol cenedlaethol a rhyngwladol sylweddol. Yn y cyfamser, yng Nghymru'n benodol, rydym yn dal i fod yn y broses o ddiwygio rheoliadol uchelgeisiol ac eang ei gyrhaeddiad mewn addysg drydyddol ac ymchwil.

Mae'r amodau digynsail hyn wedi amlygu'r blaenoriaethau ar gyfer Prifysgolion Cymru: mae paratoi ar gyfer ein hamgylchedd rheoleiddio newydd, yn ogystal â deall a chyfleu ein sefyllfa ariannol, yn hollbwysig. Mae blaenoriaethau eraill hefyd wedi dod i'r amlwg, o'r angen i ganolbwyntio ar y buddion diriaethol y mae prifysgolion yn eu darparu, boed hynny'r ffordd maen nhw'n trawsnewid bywydau pobl ledled y wlad neu'r cyfraniad gwerthfawr y maent yn ei wneud i gynaliadwyedd ein gwasanaethau cyhoeddus a'n heconomi. Daeth materion pellach i'r amlwg yn ystod y flwyddyn – fel yr heriau o ran lefel cyfranogiad sy'n wynebu Cymry ifanc.

Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r ffyrdd y mae Prifysgolion Cymru, gan weithio gyda phrifysgolion a phartneriaid ledled Cymru, wedi cyflawni yn erbyn ein blaenoriaethau.

Mae'n rhychwantu meysydd datblygu polisi ymarferol ac amserol i hysbysu'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau – megis ar her o ran lefelau cyfranogiad neu ein hamgylchedd ariannol – hyd at gyfleu'r materion hyn yn llwyddiannus i gynulleidfa ehangach ledled Cymru, y DU ac yn fyd-eang.

Mae'r gwaith hwn yn cyd-fynd â gwaith cydweithredol Cymru Fyd-eang a Rhwydwaith Arloesedd Cymru sy'n seiliedig ar gyflawniad. Mae prosiectau sy'n dod â chydweithwyr ynghyd a, thrwy'r cydweithio hwnnw, yn creu ac yn darparu cyfleoedd a buddion newydd.

Gan edrych ymlaen at y flwyddyn i ddod, mae'r heriau allweddol yn parhau: amgylchedd ariannol ansicr a'r heriau a ddaw yn sgil lefel cyfranogiad isel mewn addysg uwch yng Nghymru. Byddwn yn adeiladu ar yr hyn yr ydym wedi'i gyflawni eleni, gan barhau i ddadlau'r achos dros werth a phwysigrwydd addysg uwch; byddwn yn hyrwyddo manteision astudio yng Nghymru i fyfyrwyr yn y DU ac yn fyd-eang, ac yn cynnal ein ffocws ar yr hyn sydd yn y fantol.

Ac rydym yn gwneud hynny gyda'r argyhoeddiad bod ein prifysgolion yn bwysig, nid er eu mwyn eu hunain ond oherwydd y cyfleoedd trawsnewidiol y maent yn eu cynnig i bobl, am y cyfraniadau a wnânt i ardaloedd ledled Cymru a'r rôl a fydd ganddynt yn ein ffyniant yn y dyfodol.

**Yr Athro Paul Boyle**
**Cadeirydd, Prifysgolion Cymru**

# Cynaladwyedd ariannol

Ymateb Prifysgolion Cymru i alwad y Senedd am wybodaeth ynghylch cyllideb Llywodraeth Cymru oedd y sylfaen ar gyfer ein gwaith yn ystod 2023-24. Tynnodd sylw at y ffaith nad yw ffioedd a chyllido bellach yn talu am gost cyflwyno addysgu israddedig neu ymchwil domestig. Pwysleisiodd y lefelau benthyca ar gyfer y sector Cymreig a'r effaith y bydd erydu cyllido ar gyfer ymchwil craidd ac arloesedd yn ei chael ar ein gallu i ddenu buddsoddiad ychwanegol i Gymru.

Fel rhan o'n hymdrechion i gefnogi cynaladwyedd, buom yn gweithio ar y cyd i gynorthwyo sefydliadau â'r cynnydd mewn ffioedd a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.

Hefyd comisiynwyd gwaith a oedd yn archwilio cyfleoedd i drawsnewid busnes, gan nodi'r gwerth y mae prifysgolion Cymru yn ei ddarparu i wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

Gan weithio gyda sefydliadau a'r llywodraeth fe wnaethom helpu i sicrhau £20m mewn Cyfalaf Trafodion Ariannol a oedd ar gael i AU ac AB ar gyfer 2024-25.

Lwyddom hefyd i gyrraedd cynulleidfa eang, gyda'n gwaith ar gynaladwyedd ariannol yn cael sylw mewn 17 eitem yn y wasg yn ymwneud â chyllido prifysgolion ar draws amryw o allfeydd, ynghyd â 14 o gyfeiriadau ar wahân at yr amgylchedd ariannol yn y Senedd.

Bydd ein gwaith ar gynaladwyedd ariannol a chyllido'n parhau i fod yn un o'n blaenoriaethau pwysicaf yn 2024-25.



# Gweithio gyda Medr

Un o flaenoriaethau allweddol Prifysgolion Cymru oedd sefydlu Medr, y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil newydd, sydd â chyfrifoldeb am gyllido a rheoleiddio addysg a hyfforddiant ôl-16, ac ymchwil.

Nododd Prifysgolion Cymru ein blaenoriaethau ar gyfer Medr mewn erthyglau a ymddangosodd ar ein gwefan ac yn Wonkhe: roedd y blaenoriaethau hyn yn canolbwyntio ar gyfranogiad, lleihau biwrocratiaeth ac eirioli dros ymchwil ac arloesedd yng Nghymru. Roeddem yn falch o weld cyfranogiad a lleihau biwrocratiaeth yn cael sylw yn natganiad Llywodraeth Cymru o flaenoriaethau ar gyfer Medr.

Aethom ati i ymateb i ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru ar reoliadau, yn ogystal ag ymgysylltu â Llywodraeth Cymru, Medr a phartneriaid ehangach wrth i'r trefniadau ar gyfer symud i'r corff newydd gael eu datblygu.

Llwyddwyd hefyd i dynnu ar arbenigedd partneriaid rhyngwladol trwy drefnu cyfarfod bwrdd-crwn gyda Phrif Weithredwr Prifysgolion Seland Newydd i drafod eu profiadau o weithio o fewn system drydyddol.

# Cyfranogiad

Daeth cyfranogiad i'r amlwg fel prif flaenoriaeth i Brifysgolion Cymru yn ystod 2023-24 wrth iddi ddod yn amlwg bod cyfranogiad pobl ifanc o Gymru mewn addysg uwch wedi bod yn gostwng dros gyfnod o sawl blwyddyn.

Canfu dadansoddiad gan Brifysgolion Cymru fod y bwlch rhwng Cymru a gweddill y DU yng nghyfran y bobl ifanc 18 oed sy'n gwneud cais i brifysgol yn ehangach nag y bu erioed, a bod y rhai o'r cefndiroedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru'n llai tebygol i fynd i brifysgol na'r rhai o gefndiroedd tebyg ar draws gweddill y DU.

Wrth archwilio'r data hwn ymhellach, gwelwyd gostyngiad ehangach mewn cyfranogiad ymhlith pobl ifanc 16–18 oed yng Nghymru.

Gweithiodd Prifysgolion Cymru'n ddiflino i ddwyn sylw at y data hwn, gan ymgysylltu'n uniongyrchol â phartneriaid gan gynnwys Llywodraeth Cymru a Medr, a denu sylw yn y wasg ar draws sawl sianel gan gynnwys y Guardian a BBC Cymru.



# Dylanwadu a chyfathrebu

Bu Prifysgolion Cymru'n ymgysylltu'n helaeth â phleidiau gwleidyddol, cynrychiolwyr etholedig a'r wasg yn ystod 2023-24.

Roedd hyn yn cynnwys cyfres o ddigwyddiadau yng nghynadleddau'r pleidiau, tri chyfarfod o'r Grŵp Trawsbleidiol ar gyfer prifysgolion a 52 cyfeiriad at Brifysgolion Cymru yn y Senedd. Hyn yn ogystal ag ymgysylltu helaeth ag Aelodau Senedd Cymru a San Steffan, a thros 43 o gyfeiriadau at Brifysgolion Cymru ar draws gwahanol gyfryngau gan gynnwys y Guardian a BBC Cymru.

Mae ein gwaith cyfathrebu wedi bod yn seiliedig ar leoli erthyglau'n strategol mewn gwahanol gyhoeddiadau gan gynnwys y Western Mail, Wales Online, Nation Cymru, y Sefydliad Materion Cymreig a Wonkhe.

Rydym yn parhau i dyfu ein presenoldeb ar-lein, gan ehangu cyrhaeddiad ein gwefan a'n sianeli cymdeithasol yn ystod y flwyddyn.

Cyfeiriwyd at Brifysgolion Cymru
**52**
o weithiau yn y Senedd

Soniwyd am Brifysgolion Cymru
**43**
o weithiau yn y cyfryngau

Gwnaed
**168k+**
o argraffiadau ar gyfryngau cymdeithasol


# Tuag at 2026 – etholiadau

Symudodd ffocws ein gweithgarwch gwleidyddol yn 2023-24 i'r etholiad cyffredinol a gyhoeddwyd ym mis Mai 2024.

Cymru ers i'r DU adael yr UE a cholli'r cyllid o £60m y flwyddyn yr oedd prifysgolion yn ei dderbyn o'r cronfeydd hynny. Mae wedi bod yn gonglfaen i'n gwaith gyda Llywodraeth y DU a San Steffan dros y blynyddoedd diwethaf. Roeddem yn falch o weld Llafur yn ymrwymo i adfer pwerau i wneud penderfyniadau ynghylch arian o'r cronfeydd newydd hyn.

Buom yn cyfleu ein blaenoriaethau trwy ymgysylltu ag ymgeiswyr ac, yn dilyn yr etholiad, ag ASau a'r Swyddfa Gymreig.

## Cynhyrchwyd set o flaenoriaethau gennym ar gyfer Llywodraeth nesaf y DU i ddatgloi potensial Cymru


Prifysgolion Cymru Universities Wales

Meithrin uchelgais: blaenoriaethau ar gyfer Llywodraeth nesaf y DU i ddatgloi potensial Cymru

Cyflwyniad

Mae Cymru'n mynd i mewn i gyfnod o newid mawr. O'n poblogaeth sy'n heneiddio i'r effaith y bydd technoleg newydd yn ei chael ar y gweithlu. O'r angen i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd i bwysigrwydd sicrhau bod ein heconomi yn gwneud i gymunedau yng Nghymru deimlo'n well eu byd.

Gall ein prifysgolion fod ar flaen y gad o ran mynd i'r afael â'r heriau hyn a chefnogi ffyniant ledled Cymru. Mae prifysgolion yn datblygu sgiliau sy'n cynorthwyo busnesau lleol; maent yn darparu ymchwil ac arloesedd sy'n creu effaith sylweddol, ac yn gweithio fel angorau mewn economïau lleol. Mae'r manteision hyn i'w teimlo ym mhob rhan o Gymru.

Ond mae prifysgolion dan bwysau sylweddol. Boed hynny'n effaith chwyddiant ar ein cyllid, ansicrwydd ynghylch recriwtio rhyngwladol neu'r galw cynyddol am wasanaethau prifysgol wrth i wasanaethau'r sector cyhoeddus gyrraedd capasiti.

Mae amgylchedd gwleidyddol y DU yn gymhleth, ac er bod llawer o'r meysydd sydd o bwys i brifysgolion wedi'u datganoli, mae yna feysydd sy'n parhau i fod yn gyfrifoldeb Llywodraeth y DU fel mewnfudo a chyllido cynghorau ymchwil. Mae yna feysydd hefyd, fel cymwysterau a chynhaliaeth i fyfyrwyr, lle mae cydnabyddiaeth a chydweithio yn hanfodol er mwyn galluogi pobl i fanteisio ar y cyfleoedd sydd orau ar gyfer eu hanghenion.

Isod mae pum maes lle teimlwn y gall Llywodraeth nesaf y DU wneud gwahaniaeth i brifysgolion yng Nghymru a'n helpu i fynd i'r afael â'r heriau mawr sydd o'n blaenau.

1

# Trawsnewid Bywydau

## Yn 2023-24, aeth Prifysgolion Cymru ati i amlygu a dathlu un o'r rhesymau craidd y mae ein prifysgolion yn bodoli: i drawsnewid bywydau.

Trwy ein hymgyrch, casglwyd amrywiaeth o straeon ysbrydoledig am brofiad pobl yn sgil mynd i'r brifysgol, gan adeiladu ar gyfleoedd i dynnu sylw at y straeon hynny, trwy ein presenoldeb ar y cyfryngau cymdeithasol, gwaith yn y wasg neu trwy ymgysylltu ag Aelodau'r Senedd. Gwelwyd yr astudiaethau achos hyn dros 40,000 o weithiau ar draws ein sianeli cyfathrebu ein hunain.

Tua dechrau 2024-25, cynhaliodd Prifysgolion Cymru ddigwyddiad i ddathlu'r rhai sydd wedi rhannu eu straeon â ni, yn ogystal â thynnu ar brofiadau Aelodau'r Senedd. Ategwyd hyn â chyhoeddiad yn cynnwys nifer o'r astudiaethau achos.



# Datblygu polisi

Mae Prifysgolion Cymru wedi parhau i gynnal gweithgareddau ar draws ystod eang o feysydd polisi gan gwmpasu ansawdd, llesiant myfyrwyr, yr economi werdd, dysgu oedolion, ymchwil ac arloesedd a sgiliau.

Mae hyn wedi cynnwys bod yn rhan o adolygiadau a grwpiau cyfeirio oedd yn canolbwyntio ar gymwysterau galwedigaethol a dysgu oedolion, a pharatoi ymatebion i ymgynghoriad ar strategaeth iechyd meddwl diwygiedig Llywodraeth Cymru ac ymchwiliadau'r Senedd ar yr economi werdd ac ymchwil, yn ogystal â threfnu adborth ar yr ymgynghoriad ar y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil.

Bu Prifysgolion Cymru hefyd yn gweithio'n agos gyda sefydliad Prifysgolion y DU ar adolygiad y Pwyllgor Cynghori ar Ymfudo o'r llwybr graddedigion, gan sicrhau bod materion penodol i Gymru'n cael eu cyfleu. Roedd y gwaith hwn yn cynnwys ymgysylltu ag Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, cyflwyno tystiolaeth i'r Pwyllgor Materion Cymreig, ac ymwneud yn uniongyrchol ag Ysgrifennydd Gwladol Cymru a'r Pwyllgor Cynghori ar Ymfudo.

Adroddiad Blynyddol
Prifysgolion Cymru
2023/24

# Rhwydwaith Arloesedd Cymru

Mae Rhwydwaith Arloesedd Cymru (WIN) wedi parhau i adeiladu ei rwydweithiau eleni, gan annog cydweithio rhwng prifysgolion Cymru trwy ei grwpiau llywio.

Mae Cynghrair Celfyddydau a Dyniaethau Cymru (WAHA) wedi datblygu cais Cymru gyfan am hyfforddiant doethurol, ac mae Cydweithrediad Academaidd Plismona Cymru Gyfan (AWPAC) wedi ariannu ail flwyddyn o brosiectau ymchwil ar y cyd rhwng heddluoedd a phrifysgolion Cymru, gan arwain at ymchwil dylanwadol, fel y dangoswyd mewn symposiwm ymchwil a gynhaliwyd ym mis Mehefin.

Mae cronfa grantiau bach WIN yn darparu cyllid sbarduno ar gyfer datblygu ceisiadau i gyllidwyr allanol, cynyddu'r incwm allanol ar gyfer ymchwil a sicrhau effaith i Gymru. Eleni, dyrannwyd £113,115 i un-ar-bymtheg o brosiectau ymchwil ac arloesedd cydweithredol ar draws prifysgolion Cymru, gan adeiladu ar lwyddiant rownd 2023 o gronfa grantiau bach WIN (a ariannwyd ar y cyd â Chymru Fyd-eang), a gynhyrchodd dros £9 miliwn mewn ceisiadau am gyllid allanol.

Mae WIN wedi tynnu sylw at gryfderau ymchwil ac arloesedd yng Nghymru trwy nifer o ddigwyddiadau eleni, yn fwyaf nodedig trwy'r arddangosfa ymchwil ac arloesedd yn Llundain gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru a digwyddiad Dydd Gŵyl Dewi ym Mrwsel gydag Addysg Uwch Cymru Brwsel (WHEB). Mynychwyd y digwyddiadau hyn gan wleidyddion, cynrychiolwyr cyrff cyllido ac arweinwyr prifysgolion, gan godi proffil ymchwil ac arloesedd prifysgolion Cymru a meithrin cysylltiadau arwyddocaol ar draws Llundain ac Ewrop.

Wales Innovation Network
Rhwydwaith Arloesi Cymru

# Addysg Uwch Cymru Brwsel

Daeth Addysg Uwch Cymru Brwsel (WHEB) yn rhan ffurfiol o Brifysgolion Cymru ym mis Hydref 2023 gan adeiladu ar flynyddoedd lawer o gydweithio agos a galluogi cysylltiadau cryfach â gwaith Prifysgolion Cymru.

Yn dilyn y cytundeb ar ymgysylltiad y DU â Horizon Europe a gadarnhawyd ym mis Medi 2023, bu ffocws gwaith WHEB ar sicrhau bod prifysgolion yn cael eu hysbysu ynghylch y cyfleoedd sydd ar gael trwy'r rhaglen, gan gynnwys yr amcanion polisi allweddol a'r rhwydweithiau a llwyfannau perthnasol i gynyddu cyfranogiad. Mae WHEB wedi trefnu trafodaethau ag uwch arweinwyr ymchwil ym mhob prifysgol i rannu gwybodaeth am Horizon Europe, gan gynnwys cyfeiriad strategol y rhaglen yn ei chyfnod olaf rhwng 2025 a 2027, er mwyn galluogi prifysgolion i nodi a chynllunio ar gyfer cyfleoedd perthnasol yn y rhaglen.

Mewn partneriaeth â WIN, trefnodd WHEB arddangosfa ym Mrwsel i alluogi cysylltiadau allweddol o'r sefydliadau Ewropeaidd, partneriaid rhanbarthol a rhwydweithiau i gwrdd ag ymchwilwyr sy'n archwilio ystod eang o bynciau gan gynnwys deallusrwydd artiffisial (AI), iechyd meddwl, lled-ddargludyddion, adeiladu carbon isel a gwyddor cnydau. Mae'r digwyddiad hwn wedi arwain at gyfleoedd pellach i ymchwilwyr gan gynnwys ceisiadau am arian, aelodaeth o rwydweithiau a gwahoddiadau i gysylltu â sefydliadau ymchwil ac arloesedd Ewropeaidd.

Mae WHEB wedi trefnu amrywiaeth o weithgareddau ym Mrwsel sy'n ymwneud â phrifysgolion gan gynnwys digwyddiadau thematig, ymweliadau astudio gan ymchwilwyr ar ddechrau eu gyrfa ac ail ddigwyddiad ym Mrwsel i gyn-fyfyrwyr prifysgolion Cymru a gynhaliwyd ym Mhreswylfa Llysgennad Prydain gyda ffocws ar ymchwil cymdeithas sifil. Bu cefnogaeth barhaus hefyd i bartneriaeth Cymru Fyd-eang/Prifysgolion Cymru ag Asiantaeth Ymchwil Fflandrys (FWO) i gymell cyfranogiad Cymru yn rhaglen Rhwydwaith Ymchwil Gwyddonol FWO.

Ym maes polisi a materion cyhoeddus, ymatebodd WHEB i ymgynghoriad y Comisiwn Ewropeaidd ar raglen Erasmus, un o ddim ond 3 sefydliad yn y DU a gyflwynodd ymateb, yn ogystal â chynnig mewnbwn i Ymchwiliadau'r Senedd a briffio aelodau'r Senedd yn ystod eu hymweliadau â Brwsel.

Addysg Uwch Cymru Brwsel
Welsh Higher Education Brussels

# Rhyngwladol

O gryfhau partneriaethau rhyngwladol i gyfrannu at gynyddu nifer y myfyrwyr sy’n dod i Gymru, mae gwaith rhyngwladol rhaglen Cymru Fyd-eang III wedi cyflawni cryn lawer ar draws ei marchnadoedd blaenoriaeth (India, Fietnam, Gogledd America ac Ewrop) yn 2023-24.



Fel llawer o sectorau eraill, mae addysg wedi teimlo effaith toriadau yn y sector cyhoeddus, ac yn ystod ei hail flwyddyn cafodd cyllideb Cymru Fyd-eang ei thorri 50%; cwtogwyd y rhaglen o flwyddyn, gan ddod â'r cam hwn i ben ym mis Gorffennaf 2025. Er bod y mesurau hyn yn angenrheidiol, roeddent hefyd yn atgyfnerthu ein cryfderau craidd - cydweithredu, dyfeisgarwch, a gweledigaeth a rennir ar gyfer Cymru â chysylltiadau byd-eang.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae Cymru Fyd-eang wedi hwyluso 22 o bartneriaethau, gan sicrhau cyllido ychwanegol gwerth £156,000 ar draws y rhaglen.

Yn hollbwysig yn y cyfnod hwn o ansicrwydd o ran recriwtio myfyrwyr, fe wnaethom gyflwyno tair ymgyrch marchnata cyrchfan Astudio yng Nghymru, gan gynnwys ymgyrch ychwanegol yn India yn ystod yr haf eleni. Cododd yr ymgyrchoedd hyn ymwybyddiaeth o Astudio yng Nghymru a rhoddwyd hwb i recriwtio israddedig ac ôl-raddedig mewn marchnadoedd blaenoriaeth, gan greu dros 400 miliwn o argraffiadau, dros 6 miliwn o gliciau, a thros 84,000 o ymweliadau â thudalennau gwe prifysgolion.

O fewn marchnadoedd blaenoriaeth, mae Cymru Fyd-eang wedi naill ai hwyluso neu gynorthwyo â 10 dirprwyaeth. Roedd y rhain yn cynnwys gwahodd cynghorwyr o'r UE a Gogledd America i archwilio prifysgolion Cymru a thaith sgiliau dan arweiniad Cymru Fyd-eang i India gyda phedwar coleg addysg bellach. Hyn yn ogystal â dau ymweliad gan ddirprwyaeth â Chymru a Fietnam oedd yn caniatáu i gynrychiolwyr arsylwi a dysgu yn y wlad honno, ac ymweliad â'r Almaen a gryfhaodd y cysylltiadau rhwng sefydliadau a'r diwydiant modurol yng Nghymru a Baden-Württemberg. Yn ogystal, mynychodd Cymru Fyd-eang nifer o ddigwyddiadau rhyngwladol oedd yn canolbwyntio ar recriwtio rhyngwladol a meithrin partneriaethau, gan gynnwys NAFSA, NACAC, EAIE, CBIE, CICan a mwy.

Yn ystod y flwyddyn, darparodd Cymru Fyd-eang gyllid i 30 o ysgolheigion i gwblhau eu holl astudiaethau, neu ran ohonynt, yng Nghymru ynghyd â darparu cynllun ymgysylltu ag ysgolheigion i greu llysgenhadon gydol oes i Gymru. Derbyniwyd 664 o geisiadau am Ysgoloriaethau Ôl-raddedig Cymru Fyd-eang ar gyfer mynediad 2024/25 ar gyfer wyth ysgoloriaeth yn unig.

Adroddiad Blynyddol
Prifysgolion Cymru
2023/24

Prifysgolion Cymru
Un Sgwâr Canolog,
Caerdydd CF10 1FS

029 2044 8020
info@uniswales.ac.uk
uniswales.ac.uk